

Gwybodaeth i fyfyrwyr a darparwyr addysg

Canllawiau ar ymddygiad a moeseg ar gyfer myfyrwyr

Cynnwys

Gwybodaeth am y ddogfen hon 2

Cyflwyniad 3

Gwybodaeth am y canllawiau 7

Canllawiau ar ymddygiad a moeseg 10

Rhagor o wybodaeth 16

Geirfa 17

Dylai myfyrwyr:

- hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr;
- cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol;
- gweithio o fewn terfynau eu gwybodaeth a'u sgiliau;
- dirprwyo'n briodol;
- parchu cyfrinachedd;
- rheoli risg;
- rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch;
- bod yn agored pan aiff pethau o chwith;
- bod yn onest ac yn ddibynadwy;
- cadw cofnodion o'u gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

Gwybodaeth am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno gwybodaeth am ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg i fyfyrwyr sydd ar raglenni addysg a hyfforddiant a gymeradwyir gennym ni (rhaglenni cymeradwy). Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn fuddiol i chi yn ystod yr hyfforddiant a phan fyddwch chi'n gweithio.

Gallai'r ddogfen hon fod o fudd i chi os ydych chi'n un o'r canlynol:

- myfyriwr sy'n astudio i fod yn aelod o broffesiwn rydym yn ei reoleiddio;
- aelod o staff academiaidd sy'n dysgu myfyrwyr ar raglen gymeradwy;
- aelod o staff darparwr addysg sy'n delio â phryderon am ymddygiad myfyriwr;
- goruchwyliwr neu addysgwr mewn lleoliad ymarfer;
- cyflogwr sy'n darparu lleoliadau ymarfer i fyfyrwyr yn ystod eu hyfforddiant;
- defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr sy'n cael unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill a ddarperir gan fyfyriwr yn ystod eu hyfforddiant, neu yr effeithir arnynt gan hynny.

Nid yw hon yn rhestr lawn ond dylai roi rhyw fath o syniad i chi weld a fydd y ddogfen hon yn gymorth i chi neu beidio.

Cyflwyniad

Amdanom ni

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ydym ni, sef rheoleiddiwr a grëwyd i ddiogelu'r cyhoedd. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal sy'n cyrraedd ein safonau ar gyfer eu hyfforddiant, eu sgiliau proffesiynol, a'u hymddygiad.

Gelwir y bobl broffesiynol sydd ar ein cofrestr yn 'cofrestreion'. Ar hyn o bryd, rydym yn rheoleiddio'r proffesiynau canlynol.

- Therapyddion celfyddydol
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Dietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawdriniaeth
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetyddion / orthotyddion
- Radiograffyddion
- Therapyddion iaith a lleferydd

Mae'r rhestr ddiweddaraf o'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio ar gael ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org

Mae gan bob un o'r proffesiynau hyn un neu ragor o deitlau sy'n cael eu gwarchod gan y gyfraith (megis 'ffisiotherapydd' a 'dietegydd'). Mae unrhyw un sy'n camddefnyddio teitl sydd wedi'i warchod yn torri'r gyfraith a gallai gael ei erlyn.

Rhan bwysig arall o'n rôl yw rhoi sylw i unrhyw bryderon sy'n codi am ein cofrestrion a phenderfynu a ydynt yn 'addas i ymarfer'. Pan rydym yn dweud bod rhywun yn 'addas i ymarfer', yr hyn rydym yn ei olygu yw bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r cymeriad i ymarfer eu proffesiwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Byddwn yn edrych ar bob pryder ac yn penderfynu a oes angen i ni weithredu neu beidio. Ar sail y wybodaeth y byddwn wedi'i chasglu, efallai y byddwn yn cynnal gwrandawriad i benderfynu a yw rhywun yn addas i ymarfer.

Rydym yn gosod safonau hefyd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'n rhaid i bob cofrestrai eu cyrraedd. Mae cyrraedd y safonau hyn yn cefnogi pobl broffesiynol yn eu proses dysgu a datblygu ar ôl iddynt gael eu cofrestru fel bod modd iddynt barhau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Sut mae'r HCPC yn cael ei redeg

Cawsom ein creu yn sgil Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001, sy'n disgrifio'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud ac yn rhoi ein grym cyfreithiol i ni. Mae gennym gyngor sy'n cynnwys cofrestrion ac aelodau llyeg. Mae'r Cyngor yn gosod ein strategaethau a'n polisiau, ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni ein cyfrifoldebau yn unol â Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001.

Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg

Rydym yn gosod safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, sy'n berthnasol i'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio ac yn disgrifio'n fras sut rydym yn disgwyl i'n cofrestrion ymddwyn. Cewch wybod mwy am y safonau hyn yn eich rhaglen.

Mae'r safonau'n berthnasol hefyd i bobl sy'n gwneud cais i ymuno â'n Cofrestr. Yn yr achos hwn, byddwn yn gofyn i chi lofnodi datganiad yn cadarnhau eich bod wedi darllen y safonau, ac y byddwch yn cadw atynt ar ôl i chi gofrestru.

Mae'r safonau hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau am gymeriad y bobl sy'n gwneud cais i ymuno â'n Cofrestr ac mewn achosion lle rydym yn penderfynu a yw rhywun yn addas i ymarfer.

Cymeradwyo rhaglenni addysgol

Rydym hefyd yn asesu rhaglenni addysgol yn erbyn ein safonau addysg a hyfforddiant. Os bydd rhaglen yn cyrraedd ein safonau, byddwn yn ei chymeradwyo a bydd y myfyrwyr sy'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen yn gymwys i wneud cais i gofrestru gyda ni.

Ein Cofrestr

Os ydych chi ar ein Cofrestr, mae'n dangos eich bod yn cyrraedd ein safonau ar gyfer eich proffesiwn.

Mae ein Cofrestr yn dangos i'r cyhoedd bod y bobl broffesiynol hyn yn addas i ymarfer a bod ganddynt yr hawl i ddefnyddio teitl gwarchoddedig eu proffesiwn. Mae'n dangos bod y bobl sydd ar ein Cofrestr yn rhan o broffesiwn sydd â safonau wedi'u cydnabod yn genedlaethol ac wedi'u pennu gan y gyfraith.

Mae ein Cofrestr ar gael ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org/check ac mae'n gadael i chi chwilio ar-lein am weithiwr proffesiynol cofrestredig ym maes iechyd a gofal.

Gwneud cais i fod ar ein Cofrestr

Nid yw cwblhau rhaglen gymeradwy yn gwarantu y byddwch yn cael eich cofrestru. Ond mae'n dangos i ni eich bod yn cyrraedd ein safonau proffesiynol ar gyfer cofrestru a'ch bod chi felly yn gymwys i wneud cais. Bydd angen i ni gael rhagor o wybodaeth gennych chi er mwyn eich cofrestru.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am y tro cyntaf i fod ar ein Cofrestr, fel rhan o'ch cais bydd angen i chi anfon gwybodaeth atom, sy'n cynnwys datganiad iechyd a chymeriad, llun a chopïau o ddogfennau adnabod perthnasol. Bydd angen i chi roi gwybod i ni hefyd am unrhyw wybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys a oes gennych unrhyw euogfarnau neu rybuddion. Nid yw Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn berthnasol i gais i ymuno â'n Cofrestr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw euogfarn a rhybudd sydd gennych, gan gynnwys y rhai yr ystyrir eu bod wedi'u 'disbyddu' yn unol â'r Ddeddf (heblaw am euogfarn neu rybudd wedi'u gwarchod).

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y wybodaeth a rowch i ni am eich cymeriad yn effeithio ar ein penderfyniad i'ch cofrestru chi neu beidio. I gael rhagor o wybodaeth am wneud cais i gofrestru a rhoi gwybodaeth berthnasol am gymeriad, darllenwch ein Canllawiau ar iechyd a chymeriad sydd ar gael ar ein gwefan.

Bydd y wybodaeth a rowch i ni yn ein helpu i wneud yn siŵr:

- eich bod yn dweud y gwir ynghylch pwy ydych chi;
- eich bod yn cyrraedd ein safonau;
- ein bod yn gallu cysylltu â chi os bydd raid.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses gwneud cais ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org

Gwybodaeth am y canllawiau

Mae'r canllawiau yn seiliedig ar y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, oherwydd bod y safonau hynny yn berthnasol i'r cofrestrion ac i'r rheini sy'n gwneud cais am gael eu cofrestru. Drwy'r canllawiau, gobeithio y byddwch chi'n fwy cyfarwydd â'r safonau hynny ac y byddant yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i chi am rai o'r materion y gallwch ddod ar eu traws wrth i chi gwblhau'ch rhaglen gymeradwy. Er nad ydym yn rheoleiddio myfyrwyr, rydym yn disgwyl iddynt ddeall ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg wrth baratoi ar gyfer yr adeg pan fyddant wedi cael eu cofrestru.

Daw'r penawdau a ddefnyddiwn yn adran nesaf y ddogfen hon o'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg. O dan bob pennawd, rydym wedi rhoi pwyntiau bwled sy'n rhoi arweiniad o ran sut mae'r safonau'n berthnasol i chi fel myfyrwr. Nid yw'r canllawiau'n rhoi atebion i bob sefyllfa y gallech ei hwynebu. Ond, gobeithio y bydd yn eich helpu ac yn eich annog i ofyn am ragor o wybodaeth gan eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer (os yw'n briodol).

Yn aml iawn, bydd gan ddarparwyr addysg a darparwyr lleoliad ymarfer eu polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain, a dylech ddilyn y rhain hefyd. Rydym yn cydnabod rôl bwysig darparwyr addysg a darparwyr lleoliad ymarfer o ran helpu a chefnogi myfyrwyr i fodloni'r hyn sydd yn y canllawiau.

Dirprwyo

Rydym yn cydnabod y bydd dirprwyo yn fwy perthnasol i rai myfyrwyr nag eraill ac yn arbennig i'r rheini sy'n dod i ddiwedd eu rhaglen gymeradwy. Bydd y myfyrwyr hyn wedi datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau dros gyfnod estynedig, a gall hyn roi cyfle iddynt ddirprwyo tasgau penodol o dan amodau penodol. Yn y pen draw, y cofrestrai sy'n gyfrifol am y tasgau sydd wedi'u dirprwyo gan fyfyrwr o dan ei oruchwyliaeth, fel y nodir yn y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (safon 4.2).

laith

Mae'r canllawiau yn berthnasol i bob myfyriwr gymaint ag y bo modd. Rydym yn cymeradwyo ystod eang o raglenni, felly mae myfyrwyr mewn llawer o leoliadau gyda gwahanol fodolau goruchwyliaeth. Rydym wedi ceisio defnyddio geiriau ac iaith y mae pawb yn gallu eu deall.

Mae'r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau yn chwarae rhan bwysig o ran gwahaniaethu rhwng cwmpas yr ymarfer a disgwyliadau myfyrwyr a darpar fyfyrwyr a chwmpas a disgwyliadau cofrestreion a darpar gofrestreion. Rydym yn defnyddio '**dylech**' yn hytrach na 'rhaid' yn y canllawiau, er mwyn adlewyrchu'r ffaith nad ydym yn rheoleiddio myfyrwyr. Mae hyn yn wahanol i'r iaith a ddefnyddir yn y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.

Rydym wedi defnyddio'r term '**myfyriwr**' yn y ddogfen i gyd i gyfeirio at unrhyw un sy'n astudio neu'n hyfforddi ar raglen addysg a hyfforddiant gymeradwy a fydd yn eu harwain at fod yn gymwys i wneud cais i ymuno â'n Cofrestr. Mae'r gair '**rhaglen**' yn golygu rhaglen addysg a hyfforddiant gymeradwy.

Drwy'r canllawiau cyfan, rydym wedi defnyddio '**defnyddwyr cofrestredig**' i gyfeirio at unrhyw un sy'n defnyddio gwaith cofrestreion neu fyfyrwyr, er enghraifft cleifion a chleientiaid, neu yr effeithir arnynt gan y gwaith hwnnw. Rydym wedi defnyddio '**gofalwr**' i gyfeirio at unrhyw un sy'n gofalu am aelod o'r teulu, partner neu ffrind, neu sy'n rhoi cefnogaeth iddynt.

Rydym yn deall y gall myfyrwyr ddod i gysylltiad â defnyddiwr gwasanaeth am sawl rheswm wrth iddynt gwblhau eu rhaglen gymeradwy neu wrth iddynt ymweld â'u lleoliad ymarfer. Gall hyn gynnwys dilyn trefn ddiagnostig neu drefn fonitro, neu roi therapi neu gyngor. Rydym wedi cyfeirio at y camau hyn yn y canllawiau fel '**gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill**'.

Ymddygiad personol a phroffesiynol

Yn eich rhaglen, bydd gennych gyfle i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i fod yn broffesiynol mewn amgylchedd sy'n diogelu'r cyhoedd. Bydd gennych gyfle hefyd i ddysgu am yr ymddygiad y mae'r cyhoedd yn disgwyl ei weld gan gofrestrai.

Gan eich bod yn fyfyrwr sy'n astudio i fod yn broffesiynol mewn proffesiwn wedi'i reoleiddio, bydd gennych gyfrifoldebau penodol. Yn eich rhaglen, disgwylir i chi gyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad a moeseg.

Dylech fod yn ymwybodol, mewn amgylchiadau difrifol dros ben, y gall eich ymddygiad effeithio ar eich gallu i wneud y canlynol:

- cwblhau eich rhaglen;
- ennill y cymhwyster terfynol;
- cofrestru gyda ni.

Mae gan bob un o'n rhaglenni cymeradwy brosesau ar waith i ddelio â phryderon am ymddygiad myfyrwr sy'n ymwneud â phroffesiwn. Mae hyn yn golygu y gall camymddwyn effeithio ar eich gallu i gwblhau eich rhaglen. Gallwch lwytho ein safonau addysg a hyfforddiant i lawr oddi ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org

Canllawiau ar ymddygiad a moeseg ar gyfer myfyrwyr

1 Hyrwyddo a diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- Dylech drin defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr fel unigolion, gan barchu eu preifatrwydd a'u hurddas.
- Dylech wneud yn siŵr eich bod wedi cael caniatâd gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu gan awdurdod priodol arall cyn i chi ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer ynghylch caniatâd.
- Dylech wneud yn siŵr bod y defnyddiwr gwasanaeth yn gwybod mai myfyriwr ydych chi cyn i chi ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech barchu hawl unigolyn i ofyn am gael rhywun proffesiynol ac nid myfyriwr yn darparu gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill iddo.
- Dylech drin pawb yr un fath a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd eich barn bersonol.
- Dylech gynnal perthynas broffesiynol â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

2 Cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol

- Dylech fod yn gwrtais ac yn ystyriol o ddefnyddwyr gwasanaeth, myfyrwyr eraill a staff sydd yn eich darparwr addysg a'ch darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau wrth ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.
- Dylech gymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr eich bod yn gallu cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.
- Dylech gyfathrebu'n effeithiol a chydweithio ag aelodau o staff yn eich darparwr addysg a'ch darparwr lleoliad ymarfer er budd y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr.

- Os ydych chi'n cael unrhyw drafferthion neu broblemau eraill a all effeithio ar eich ffordd o ddysgu neu eich gallu i gymryd rhan yn eich rhaglen yn llwyddiannus, dylech ddweud wrth eich darparwr addysg a'ch darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech ddefnyddio pob ffurf o gyfathrebu yn briodol ac yn gyfrifol, gan gynnwys gwefannau rhwydweithio a chyfryngau cymdeithasol.

3 Gweithio o fewn terfynau eich gwybodaeth a'ch sgiliau

- Dylech wneud yn siŵr eich bod yn cael eich goruchwyllo'n briodol mewn unrhyw dasg y gofynnir i chi ei gwneud.
- Dylech ofyn am help pan fydd angen hynny arnoch.
- Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau sy'n berthnasol i chi wrth gyflawni tasgau penodol, a dilyn unrhyw bolisiau perthnasol sydd gan eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech gydnabod y bydd y cyfleoedd i gyflawni unrhyw dasgau heb oruchwyliaeth yn amrywio yn ystod eich rhaglen, yn dibynnu ar eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth, eich sgiliau a'ch profiad.
- Dim ond os ydych chi'n teimlo bod gennych y wybodaeth a'r sgiliau priodol i gyflawni tasg heb oruchwyliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol y dylech wneud hynny.
- Dylech fod yn gyfrifol am eich proses dysgu eich hun.
- Dylech fod yn ymwybodol o unrhyw ganllawiau a roddir gan eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer ar gyfer gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, a dilyn y canllawiau hynny.
- Dylech ofyn am adborth, gwranddo arno, meddwl yn ei glych ac ymateb yn rhagweithiol iddo.

4 Dirprwyo'n briodol

- Dylech gydnabod y bydd y cyfleoedd i ddirprwyo yn amrywio yn ystod eich rhaglen, yn dibynnu ar eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth, eich sgiliau a'ch profiad.

- Dylech drafod dirprwyo tasgau gydag aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer cyn i chi wneud dim.
- Dylech ddilyn polisiau neu ganllawiau lleol ar ddirprwyo a gweithio gydag eraill sydd wedi'u llunio gan eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.
- Os byddwch yn rhoi tasgau i rywun arall eu cyflawni ar eich rhan, dylech wneud yn siŵr bod ganddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i gyflawni'r tasgau yn ddiogel ac yn effeithiol. Dylai'r darparwr addysg neu'r darparwr lleoliad ymarfer gefnogi eich penderfyniad i ddirprwyo.
- Os byddwch yn rhoi tasgau i rywun arall eu cyflawni ar eich rhan, dylech wneud yn siŵr bod ganddo'r wybodaeth briodol i gyflawni'r tasgau yn ddiogel ac yn effeithiol.
- Dylech esbonio wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr os byddwch wedi gofyn i rywun arall ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill.

5 Parchu cyfrinachedd

- Dylech gadw gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gyfrinachol, a dim ond ei defnyddio at y diben y rhoddwyd y wybodaeth.
- Dylech ddilyn polisiau neu ganllawiau lleol ar gyfrinachedd sydd wedi'u llunio gan eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech dynnu unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i adnabod defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr o'r wybodaeth rydych chi'n ei defnyddio yn eich asesiadau neu mewn gwaith academiaidd arall sy'n berthnasol i'ch rhaglen.
- Os bydd pryderon yn codi am ddiogelwch neu les rhywun yn sgil unrhyw wybodaeth gyfrinachol, dylech drafod hyn yn syth gydag aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.

6 Rheoli risg

- Dylech wneud yn siŵr eich bod yn cymryd pob cam priodol i gyfyngu risg o niwed i ddefnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr ac eraill.
- Ni ddylech wneud dim a fyddai'n rhoi rhywun mewn perygl annerbyniol yn eich barn chi.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer ynghylch rheoli risg.
- Dylech fod yn ymwybodol y gallech roi eich defnyddwyr gwasanaeth neu chi eich hun mewn perygl os bydd eich iechyd corfforol neu feddyliol yn effeithio ar eich perfformiad neu eich crebwyll.
- Dylech ofyn am gymorth priodol ac addasu eich astudiaeth neu roi'r gorau i astudio os bydd eich iechyd corfforol neu feddyliol yn effeithio ar eich perfformiad neu eich crebwyll, ac y gallai hyn roi defnyddwyr gwasanaeth, chi eich hun neu eraill mewn perygl.
- Dylech ofyn am gyngor gan feddyg neu weithiwr proffesiynol priodol arall os ydych chi'n pryderu am eich iechyd corfforol neu eich iechyd meddwl.

7 Rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch

- Os ydych chi'n pryderu am ddiogelwch neu les defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr neu eraill, dylech siarad ag aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech roi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth cyn unrhyw bryderon personol, er enghraifft, ynghylch asesiadau, marciau, gwaith arall sy'n ymwneud â'ch rhaglen, rhagolygon o ran gwaith neu unrhyw fudd personol arall.

8 Bod yn agored pan aiff pethau o chwith

- Dylech ddweud wrth aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer os aiff rhywbeth o chwith mewn unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill rydych chi wedi'u rhoi sy'n ymwneud â defnyddiwr gwasanaeth.

- Dylech gydweithredu gydag aelod o staff yn eich darparwr addysg a'ch darparwr lleoliad ymarfer os oes rhywbeth wedi mynd o chwith mewn unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill rydych chi wedi'u rhoi sy'n ymwneud â defnyddiwr gwasanaeth. Dylech ddysgu o'r profiad hwn.
- Dylech ddweud wrth aelod priodol o staff yn eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer os bydd defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr am fynegi pryderon ynghylch unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill mae wedi'i gael.

9 Bod yn onest ac yn ddibynadwy

- Dylech wneud yn siŵr nad yw eich ymddygiad yn niweidio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn eich profesiwn.
- Dylech fod yn ymwybodol y gall eich ymddygiad y tu allan i'ch rhaglen effeithio ar benderfyniadau ynghylch a gewch chi gwblhau eich rhaglen neu beidio, ac a gewch chi gofrestru gyda ni.
- Ni ddylech honni bod gennych wybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad nad oes gennych mohonynt.
- Dylech fod yn onest am eich rôl gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr ac eraill.
- Dylech wneud yn siŵr bod eich edrychiad personol yn briodol ar gyfer amgylchedd eich lleoliad ymarfer.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer ynghylch presenoldeb.
- Dylech ddilyn polisiau eich darparwr addysg ar foeseq wrth gynnal gwaith ymchwil.
- Dylech wneud yn siŵr bod pob cofnod presenoldeb, cyrhaeddiad ac asesiad yn cael eu llenwi'r gywir.
- Dylech gyfeirio at waith pobl eraill yn briodol a pheidio â'i hawlio fel eich gwaith eich hun.
- Dylech roi adborth adeiladol ar ansawdd eich profiad dysgu ac addysgu yn y lleoliad addysg a'r lleoliad ymarfer.

- Dylech ddarparu, cyn gynted ag y bo modd, unrhyw wybodaeth bwysig am eich ymddygiad, cymhwysedd neu iechyd i'ch darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer.
- Dylech ddweud wrth eich darparwr addysg, cyn gynted ag y bo modd, os cewch chi eich cyhuddo o unrhyw drosedd, eich cael yn euog o unrhyw drosedd neu gael rhybudd am unrhyw drosedd.
- Dylech gydweithredu mewn unrhyw ymchwiliad i'ch ymddygiad neu'ch cymhwysedd.

10 Cadw cofnodion o'ch gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr

- Dylech wneud yn siŵr bod y cofnodion rydych chi'n eu cadw yn glir ac yn gywir.
- Dylech helpu i ddiogelu cofnodion rhag iddynt gael eu difrodi, neu rhag iddynt fynd ar goll neu rhag bod rhywun heb ganiatâd yn cael gafael arnynt.
- Dylech ddilyn polisi eich darparwr addysg neu eich darparwr lleoliad ymarfer ynghylch cadw cofnodion.

Rhagor o wybodaeth

Dogfennau defnyddiol eraill

Rydym wedi llunio sawl dogfen a all fod yn ddefnyddiol i chi hefyd. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrinachedd – canllawiau i gofrestreion
- Canllawiau ar iechyd a chymeriad
- Iechyd, anabledd a dod yn weithiwr proffesiynol ym maes gofal ac iechyd
- Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg
- Safonau hyfedredd (sy'n benodol i broffesiwn)
- Datblygiad proffesiynol parhaus a'ch cofrestrriad

Gallwch lwytho copiâu o'r dogfennau hyn i lawr o'n gwefan neu ofyn i ni am gopi caled drwy anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad isod.

Gallech gysylltu â'ch corff proffesiynol am ragor o gyngor hefyd.

Cysylltu â ni

Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni, gan gynnwys y safonau a luniwn, ein ffurflenni, datganiadau newyddion a deunyddiau eraill, ar gael ar ein gwefan yn www.hcpc-uk.org

Gallwch gysylltu â ni yn y cyfeiriad canlynol:

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
(The Health and Care Professions Council)
Park House
184 Kennington Park Road
Llundain
SE11 4BU

Ffôn: +44 (0)300 500 6184

Ffacs: +44 (0)20 7820 9684

E-bost: policy@hcpc-uk.org

Geirfa

Rhaglen gymeradwy

Rhaglen addysg a hyfforddiant yw hon sydd wedi cael ei hasesu ac mae'n cyrraedd ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae unrhyw un sy'n cwblhau rhaglen gymeradwy yn gwmwys i wneud cais am ymuno â rhan berthnasol o'n Cofrestr.

Gofal, triniaeth neu wasanaethau eraill

Term cyffredinol i ddisgrifio'r gwahanol gamau gweithredu y gall myfyriwr eu cymryd wrth gwblhau ei raglen gymeradwy sy'n effeithio ar ei ddefnyddwyr gwasanaeth neu eraill. Gall hyn gynnwys dilyn trefn ddiagnostig neu drefn fonitro, neu roi therapi neu gyngor.

Gofalwr

Unrhyw un sy'n gofalu am aelod o'r teulu, partner neu ffrind, neu sy'n rhoi cefnogaeth iddynt.

Ymddygiad

Y ffordd mae rhywun yn ymddwyn.

Caniatâd

Caniatâd i fyfyriwr neu gofrestrai ddarparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill, wedi'i roi gan ddefnyddiwr gwasanaeth, neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran, ar ôl cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i wneud y penderfyniad hwnnw.

Dirprwyo

Pan fydd myfyriwr yn gofyn i rywun arall gyflawni tasg ar ei ran. Mae'n bosib na fyddai dirprwyo yn berthnasol i bob myfyriwr oherwydd nad ydynt yn ymarfer fel gweithwyr proffesiynol cymwysedig a'u bod yn cael eu goruchwyllo yn ystod eu rhaglen gymeradwy. Ond, i rai myfyrwyr, wrth i'w gwybodaeth a'u sgiliau ddatblygu yn ystod eu rhaglen gymeradwy, mae'n bosib y bydd dirprwyo yn fwy perthnasol iddynt.

Gwahaniaethu

Trin unigolyn neu grŵp o bobl yn annheg ac yn wahanol i bobl eraill neu grwpiau eraill o bobl. Mae hyn yn cynnwys trin eraill yn wahanol oherwydd eich barn am eu ffordd o fyw, eu diwylliant neu eu statws economaidd neu statws cymdeithasol, yn ogystal â'r nodweddion sydd wedi'u gwarchod gan y gyfraith – oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Darparwr addysg

Y sefydliad sy'n bennaf gyfrifol am ddarparu rhaglen gymeradwy.

Moeseg

Y gwerthoedd sy'n llywio ymddygiad neu grebwyll unigolyn.

Lleoliad ymarfer

Cyfnod o brofiad ymarferol sy'n rhan o raglen gymeradwy.

Addysgwr lleoliad ymarfer

Unigolyn sy'n gyfrifol am addysg myfyriwr yn ystod ei gyfnod o brofiad ymarferol. Gellir cyfeirio at yr unigolyn hwn hefyd fel 'goruchwyliwr'.

Darparwr lleoliad ymarfer

Y sefydliad sy'n darparu cyfnod o brofiad ymarferol i fyfyriwr.

Cofrestr

Rhestr o'r holl weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal sy'n cyrraedd ein safonau ar gyfer eu hyfforddiant, eu sgiliau proffesiynol, a'u hymddygiad.

Cofrestrai

Unigolyn sydd ar ein Cofrestr ar hyn o bryd.

Cwmpas ymarfer

Y meysydd y mae gan fyfyrwr neu gofrestrai wybodaeth, sgiliau a phrofiad ynddynt sy'n angenrheidiol er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darparu unrhyw ofal, triniaeth neu wasanaethau eraill i ddefnyddwyr gwasanaeth ac eraill.

Defnyddiwr gwasanaeth

Unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau cofrestrion neu fyfyrwyr, er enghraifft cleifion a chleientiaid, neu yr effeithir arnynt gan y gwasanaethau hynny.

Myfyrwr

Unrhyw un sy'n astudio ar hyn o bryd ar raglen gymeradwy sy'n eu harwain at fod yn gymwys i ymuno â'n Cofrestr.

Park House
184 Kennington Park Road
London SE11 4BU

Ffôn +44 (0)300 500 6184
Ffacs +44 (0)20 7820 9684
www.hcpc-uk.org

**I ofyn am y ddogfen yn y Gymraeg
neu mewn fformat arall, anfonwch
e-bost at publications@hcpc-uk.org**



CYMYSGEDD
Papur o
ffynonellau cyfrifol
FSC® C105395

